**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener 11 Rhagfyr 2020 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | L G Thomas |
| L V Walton | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Alec Dubens | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: B J Rowlands

---

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2020 yn gofnod cywir.

## 11 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**12 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat - SWL**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndirol mewn perthynas â SWL.

Esboniodd SWL yr amgylchiadau mewn perthynas â'r euogfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais SWL am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**13 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat - DRH**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndirol mewn perthynas â DRH.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd DRH yr amgylchiadau mewn perthynas â'r ardystiadau ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**Penderfynwyd** y dylid **gwrthod** cais DRH am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Nid oedd DRH yn bodloni'r aelodau ei fod yn ffit ac yn briodol ac yn ddiogel ac yn addas i ddal trwydded o dan adrannau 4.20, 4.22, 4.27 a 4.39 o'r canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a dalwyr trwydded yn y busnes cerbydau hacni a hurio preifat.

**14 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – PMT**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndirol mewn perthynas â PMT.

Esboniodd PMT yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r digwyddiadau a'r materion a godwyd yn yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** y dylid adnewyddu trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat PMT am flwyddyn.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Cododd yr aelodau bryderon ynghylch materion ymddygiad a barnwyd ei bod yn briodol adnewyddu'r drwydded am flwyddyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.39pm

**Cadeirydd**